FY STORI

1 Dechrau fy nhaith

Treuliais 8 mlynedd yn yr Ysgol Gynradd gyda phobl yn dweud mod i angen asesiad ar gyfer rhywbeth. Arhosais mor hir am gymorth.



2 Teimladau

Dydw i ddim yn cofio popeth ond rwy'n cofio pa mor bryderus oedd fy rhieni a'u bod o dan straen.

Gwnaeth yr holl aros i mi deimlo'n rhwystredig, yn biwis, yn flin ac wedi diflasu.

Mae gen i 2 chwaer sydd wedi bod yn aros blynyddoedd am asesiad hefyd ac mae wedi bod yn wirioneddol anodd.



Nid oes digon o wybodaeth ar gael i deuluoedd. Roedden ni'n teimlo fel nad oedd neb yn gwrando arnom.

4 Y Dyfodol

Rwy'n oedolyn nawr ac mae'r pethau hyn wir wedi effeithio ar fy mywyd, fy hyder, fy ngyrfa a fy iechyd meddwl. Pan fyddwch chi'n dod yn oedolyn nid oes llawer o gefnogaeth ar gael, mae fel petaech wedi'ch gadael i ofalu amdanoch chi'ch hun. Ond rwy'n rhan o Project Search a gobeithio y bydd cyfle am ddyfodol gwell.

3 Ysgol

Roedd yr ysgol yn amgylchedd gwenwynig i mi. Roeddwn i'n teimlo fel fy mod i'n cael fy nghamddeall yno. Cefais fy mwlio. Roedd pobl yn meddwl mod i'n codi helynt. Cefais gymorth i ddarllen ond doeddwn i ddim yn teimlo fel y gallwn i fod yn fi fy hun neu ddysgu am yr hyn roedd gen i ddiddordeb ynddo.